

Cariad tragwyddol

“*Cerais di â chariad diderfyn; am hynny parheais yn ffyddlon iti.*” (adn. 3)

Beth am ddarllen Jeremeia 31:1–9 ac yna myfyrio

Yr ydym bellach yn cyrraedd at y rhinwedd olaf ar restr Pedr, ‘cariad’. (2 Pedr 1:7). Does dim syndod ar ysgol rhinweddau Cristnogol mai cariad sydd ar y brig. Mae cariad at ein gilydd yn rhagorol, ond rhaid i’r bywyd Cristnogol arddangos cariad sydd mor llydan â chariad Duw ei hun. Rhaid i’r Cristion ddangos yr holl gariad y mae wedi ei adnabod yng nghariad Duw. Mae cariad Duw mor wahanol i’r cariad naturiol yr ydym yn ei ddarganfod yn ein calonnau. Mae’r cariad yr ydym ni yn ei gynnig yn amodol, y cariad sy’n dweud: “Os wyt ti am fy ngharu i, fe’th garaf di.” “Gwna hyn, a medri ddbynnu ar fy nghariad.” Nid yw y cariad hwn yn debyg i gariad Duw o gwbl. Nid yw Duw yn ein caru oherwydd unrhyw beth sydd ynom ni, ac yn wir ni all yr un methiant ynom ni atal ei gariad. Mae pechod yn peri gagendor rhyngom a Duw o ran perthynas, ond nid yw yn peri fod Duw yn peidio â’n caru.

Y nefoedd yw tarddle y cariad yma. Yn ôl 1 Ioan 4:19: “Yr ydym ni yn caru am ei fod ef yn gyntaf wedi’n caru ni.” Dyma’r peth bendigedig am gariad neu *agape*, hwn yw y cariad sydd yn symbylu. Ni allwn byth esbonio pam fod Duw yn ein caru. Er mwyn ei esbonio, byddai angen rheswm dros ei gariad ac, fel y gwelwyd, mae’n ein caru yn ddiamod. Mae’n dewis ein caru oherwydd mai cariad yw. Nid oes dim ynom sydd wedi esgor ar y cariad yma. Nid oes dim ynom all ddiffodd y cariad yma. Mae’n gariad heb unrhyw amod. Mae’n gariad heb unrhyw ddiwedd.

Gwrandewch eto ar eiriau’r testun heddiw: “Ceraist di â chariad diderfyn.” Does dim dechrau, does dim diwedd i’r cariad hwn. Wrth inni feddwl am y math yma o gariad, mae tloedi ein cariad ni yn ein goddiweddyd braidd. Mae’n gysur bendigedig i ystyried ein bod wedi ein caru yn ddirerfyn. Bu i’r apostol Paul lawenhau yn yr un gwirionedd yn 1 Rhufeiniaid 8:35 pan fu iddo lefain: “Pwy a’n gwahana ni oddi wrth gariad Crist?” Mae cariad dwyfol yn gariad heb reswm ynom ni, a heb ddiwedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 7:7–9; Salm 103:1–22; Ioan 3:16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Duw yn ein caru ni?
2. Beth sydd yn peri inni garu Duw?

Gweddï

O Dad, rwyf yn erfyn â’ m holl gariad dynol, i ti ganiatáu i mi wneud cariad yn nod fy mywyd. Cryfha fy nghariad, a, thrwy hynny, byddaf yn tyfu yn debycach i Iesu. Ni allaf lai na’th garu di. Ni allaf lai na charu Iesu. “Dyma gyfaill haedda’i garu.” Iddo ef y byddo’r diolch. Amen.